## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Yr oedd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru o dan adran 64(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) adolygu'r trefniadau etholiadol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr etholiadau cyntaf i awdurdodau unedol ym Mai 1995.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi ei effaith i'r cynigion a wnaed yn adroddiad Mawrth 2001 Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Er bod y Gorchymyn yn diddymu'r holl adrannau etholiadol presennol yn y Fwrdeistref Sirol ac yn eu disodli ag adrannau etholiadol newydd, yn ymarferol bydd y mwyafrif yn aros yr un fath.

Nid oes unrhyw newid i adrannau **Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Cornerswell, Court, Y Bont-faen, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtud, Llandoche, Llandŵ /Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint-y-brid, Stanwell, Gwenfô.**

Mae adran etholiadol bresennol Alexandra yn cael ei rhannu i greu dwy adran etholiadol newydd o'r enw **Plymouth** a **St Augustine's.**

Mae adran etholiadol **Plymouth** i gynnwys ward Plymouth cymuned Penarth. Mae'r adran i'w chynrychioli gan ddau gynghorydd.

Mae adran etholiadol **St Augustine's** i gynnwys ward St Augustine's cymuned Penarth. Mae'r adran i'w chynrychioli gan ddau gynghorydd.

Bydd y nifer o gynghorwyr sy'n cynrychioli adran bresennol **Sili** yn cynyddu o un i ddau.

Mae ardaloedd yr adrannau etholiadol newydd wedi'u diffinio ar y map manwl a ddisgrifir yn Erthygl 2. Gellir archwilio printiau ohono ar bob adeg resymol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).